

## TALBOT, CHARLES (1685 - 1737), y barwn Talbot o Hensol (sir Forgannwg) – 1af ac arglywydd-ganghellor

**Enw:** Charles Talbot  
**Dyddiad geni:** 1685  
**Dyddiad marw:** 1737  
**Priod:** Cecil Talbot (née Mathew)  
**Plentyn:** William Talbot  
**Rhiant:** Catharine Talbot (née King)  
**Rhiant:** William Talbot  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** arglywydd-ganghellor  
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

bedyddiwyd ef yn Chippenham, 21 Rhagfyr 1685, yn fab hynaf William Talbot (esgob Durham yn ddiweddarach) a'i wraig Catharine, merch Richard King, aldramon yn Ninas Llundain. Cafodd ei addysg yn Eton a Choleg Oriel, Rhydychen (B.A. 1704, cymrawd o Goleg All Souls, 1704, D.C.L. 1735; cafodd LL.B., Lambeth, hefyd, yn 1714). Bwrriedid iddo gymryd urddau eglwysig, eithr ar berswad yr arglywydd Cooper dewisodd y gyfraith a derbynwyd ef yn fargyfreithiwr (Inner Temple), 28 Mehefin 1707. Ar 31 Mai 1717 dewiswyd ef yn 'Solicitor-General' i dywysog Cymru. Bu'n aelod seneddol dros Tregony, Cernyw, 1719-20, a thros Durham yn Seneddau 1722-7 a 1727-34. Daeth yn 'Solicitor-General,' 23 Ebrill 1726, ac, ar 29 Tachwedd 1733, yn arglywydd-ganghellor.

Fel y gwelir y mae hanes ei yrfa (a geir yn llawn yn y *D.N.B.*, etc.) ynghlwm â hanes Prydain. Pan briododd, yn haf 1708, y dechreuwyd y cyswllt â Chymru. Ei wraig oedd **Cecil**, merch **Charles Mathew**, Castell Menich, Sir Forgannwg, wýres ac aeres y **barwn David Jenkins**, Hensol. Adeiladodd gastell ar y dull Tuduraidd yn Hensol, castell y gwnaeth ei fab ychwanegiadau ato yn ddiweddarach. Dyrchafwyd yr arglywydd-ganghellor i'r bendefigaeth ar 5 Rhagfyr 1733. Bu farw 14 Chwefror 1736/7.

Dilynwyd y barwn Talbot 1af gan ei ail fab, WILLIAM TALBOT (1710 - 1782), ail farwn Talbot, stiward y teulu brenhinol; daeth yn iarll Talbot yn 1761. Pan fu ef farw yn 1782 daraw am yr iarllaeth ac aeth y farwinaeth i'w nai, JOHN CHETWYND TALBOT, a grewyd yn iarll Talbot o Hensol (y 1af) yr un pryd; mab iddo ef oedd y Syr CHARLES CHETWYND TALBOT, ail iarll Talbot o Hensol - y ceir ei hanes yntau hefyd yn y *D.N.B.*

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.I

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.II

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [4004959](#)

Wikidata: [Q5082846](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). TALBOT, CHARLES (1685 - 1737), y barwn Talbot o Hensol (sir Forgannwg) 1af ac arglwydd-ganghellor. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-TALB-CHA-1685>

Copirwradd

Preifatrwydd a Chwicis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodder gan  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government